

**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG  
CYNGOR SIR GAR (2018-2033)  
ARCHWILIAD**

---

**RHESTR O FATERION A CWESTIYNAU**

**Mater 4: Pobl a Lleoedd Ffyniannus – Cyflogaeth, yr Economi Ymwelwyr a Seilwaith**

*Y Mater - A yw'r strategaeth economaidd yn gydlynol ac yn seiliedig ar broses baratoi glir a chadarn? A fydd yn mynd i'r afael â'r Materion a'r Amcanion Strategol yn effeithiol ac yn effeithlon? A yw'r polisiau'n realistig ac yn briodol yng ngoleuni dewisiadau amgen perthnasol ac a ydynt yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?*

*Cyflogaeth*

**1. A yw'r Adroddiad Tai a Thwf Economaidd yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy? A yw'r canfyddiadau'n ddigonol i lywio strategaeth economaidd y Cynllun?**

Nod yr Adroddiad Tai a Thwf Economaidd oedd cynnal asesiad cynhwysfawr o opsiynau tai a thwf economaidd ar gyfer Sir Gaerfyrddin, ac fe'i cwblhawyd ym mis Tachwedd 2022 (CSD34). Pwrpas yr Adroddiad oedd adeiladu ar y dystiolaeth bresennol, a oedd yn cynnwys rhagolygon demograffig gan Edge Analytics, ac Astudiaeth Economaidd y Ddwyr Sir ar gyfer Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin (diweddariad 2021) (CSD42). Roedd yr Adroddiad yn ymgorffori'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael yn gysylltiedig â demograffeg, y farchnad dai a'r economi leol, gan archwilio sut y gallai poblogaeth Sir Gaerfyrddin newid pe bai tueddiadau diweddar yn parhau. Roedd hefyd yn amcangyfrif y lefelau cysylltiedig o angen tai ac yn meincodi'r twf mewn swyddi y gellid ei gynnal mewn senarios o'r fath.

Cynhaliwyd yr asesiad yn yr Adroddiad yng nghyd-destun Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru, sy'n pwysleisio pwysigrwydd taro cydbwysedd rhwng twf tai a swyddi, i leihau'r angen i gymudo.

Mae'r Adroddiad yn ystyried y potensial am dwf economaidd pellach yn Sir Gaerfyrddin dros oes y cynllun newydd hyd 2033, drwy ddefnyddio tri rhagolwg llinell sylfaen. Mae hyn yn awgrymu y gallai rhwng 149 a 545 o swyddi gael eu creu bob blwyddyn. Y rhagolwg gan Experian, sy'n rhagweld 354 o swyddi'r flwyddyn o 2020 ymlaen, yw'r opsiwn a ffefrir yn yr Adroddiad ar ôl ystyried data tueddiadau hanesyddol, dadansoddiadau fesul sector ac astudiaethau cynharach ar sail tystiolaeth.

Mae'r casgliadau canlyniadol wedi llywio graddfa a dosbarthiad yr angen am gyflogaeth o fewn y Sir, ynghyd â'r tir mwyaf priodol a allai fodloni'r angen hwnnw dros oes y cynllun, ac yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 23: datblygu economaidd.

## **2. Beth yw'r prif ysgogwyr ar gyfer newid ym marchnad gyflogaeth Sir Gaerfyrddin? Sut mae'r Cynllun wedi mynd i'r afael â'r ystriaethau hyn?**

Ceir ysgogwyr economaidd allweddol o fewn y Sir, gan gynnwys y buddsoddiadau yn Nghross Hands mewn perthynas â'r parc bwyd a safle cyflogaeth Dwyrain Cross Hands. Wrth greu Dinas-ranbarth Bae Abertawe daeth ardal eang, amrywiol a chyferbyniol ynghyd gyda'r ffocws ar ysgogi buddsoddiad a chyfleoedd i greu swyddi. Yn sgil llofnodi'r fargen ddinesig gwerth £1.24 biliwn yn 2017 cafwyd cynnydd wrth gyflawni'r prosiectau cysylltiedig - Clwstwr Creadigol Yr Egin yng Nghaerfyrddin, prosiect Llesiant a Gwyddor Bywyd Llanelli ym Mhentre Awel, yn ogystal â thrydydd prosiect yn gysylltiedig â menter talent a sgiliau sy'n cefnogi datblygiad sgiliau o fewn y Dinas-ranbarth.

Ymdriniwyd â'r ysgogwyr allweddol yn yr Astudiaeth Dwy Sir a sefydlodd ddadansoddiad meintiol o'r galw a ragwelir am safleoedd cyflogaeth ar raddfa ehangach na lleol. I ategu'r Astudiaeth cafwyd tystiolaeth o'r farchnad a chan gyflogwyr yn gysylltiedig â'r galw o fewn y farchnad. Ymhellach i hyn, sefydlodd yr Astudiaeth Tai a Thwf Economaidd y cysylltiadau rhwng mantoli'r lefelau tir cyflogaeth a swyddi â'r gofyniad am dwf cartrefi newydd yn y Sir.

O ganlyniad i hynny, mae Polisi Strategol SP7: Cyflogaeth a'r Economi yn pennu'r fframwaith fel bo modd darparu lefel gytbwys o dir cyflogaeth i gynnwys y swyddi newydd, ac a nodwyd drwy'r astudiaethau uchod. Ystyrir bod hwn yn ddull anghyfyngedig a chadarnhaol o sicrhau bod ystod a chymysgedd o fathau o safleoedd ar gael ar draws y Sir hyd at 2033, gan roi digonedd o gwmpas i barhau i fuddsoddi heb amharu ar y cyflenwad tai.

Mae sicrhau portffolio eang a chytbwys o ddefnyddiau cyflogaeth yn ganolog i'r strategaeth economaidd. Bydd hyn yn galluogi'r economi leol i ddenu defnyddiau cyflogaeth ddwys â gwerth ychwanegol uwch gan gynnwys y sectorau gwyddor bywyd, adeiladu, ynni a datgarboneiddio, a thelathrebu. Mae hyn yn ychwanegol at gefnogi a chynnal y sylfaen weithgynhyrchu sylweddol a defnyddiau dosbarth B traddodiadol sy'n agwedd bwysig ac yn sbardun twf i'r economi leol, nawr ac yn y dyfodol.

### 3. Faint o swyddi newydd yr amcangyfrifir eu bod yn cael eu creu o ganlyniad i strategaeth economaidd y Cynllun? Ym mha sectorau?

O ran sectorau mae economi Sir Gaerfyrddin yn weddol amrywiol. Trafodir y sylfaen sectoraidd yn fanwl yn yr Adroddiad Tai a Thwf Economaidd, ond yn fras, ceir presenoldeb cymharol fawr ym maes gweithgynhyrchu (yn enwedig yn nwyrain y Sir, o amgylch Llanelli), cynhyrchu bwyd (o ran cynhyrchu amaethyddol sylfaenol a phrosesu bwyd) a'r economi ymwelwyr. Ceir hefyd sector creadigol sy'n tyfu, ac sydd wedi elwa ar fuddsoddiad diweddar drwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe, ynghyd â chasgliad pwysig o asedau is-ranbarthol ar gyfer addysg a gwasanaethau cyhoeddus o amgylch Caerfyrddin. Mae hi hefyd yn bwysig nodi bod yr awdurdod lleol wedi cynnal rhai asesiadau cyn astudiaethau hyfywedd o ystod o brosiectau ynni carbon isel, a gallai safleoedd penodol gynnwys gwynt a solar, ynni o wastraff, gwefru cerbydau trydan, adfer adnoddau, ynghyd â defnyddiau diwydiannol cysylltiedig, gyda ffocws ar yr economi gylchol a manteision cynhyrchu ynni ar-safle.

Ar ôl adolygu perfformiad economaidd dros gyfnod y cynllun presennol, mae'r Adroddiad Tai a Thwf Economaidd yn ystyried y potensial am dwf economaidd pellach yn Sir Gaerfyrddin dros gyfnod y cynllun newydd hyd 2033. Mae tri rhagolwg llinell sylfaen, gan bob un o'r prif gwmnïau rhagolygon, wedi cael eu cyflwyno sy'n awgrymu y gallai rhwng 149 a 545 o swyddi gael eu creu bob blwyddyn. Mae'r rhagolwg gan Experian, sy'n rhagweld **354 o swyddi'r flwyddyn o 2020 ymlaen, wedi cael ei ffafrio** yn yr Adroddiad, ar ôl ystyried data tueddiadau hanesyddol, dadansoddiadau fesul sector ac astudiaethau cynharach ar sail tystiolaeth.

Mae cymariaethau yn y twf a ragwelir ar draws y prif grwpiau sector wedi'u nodi yn yr Adroddiad Tai a Thwf Economaidd, felly ni chânt eu hailadrodd yma. Fodd bynnag, yn gyffredinol, rhagwelir twf mewn gwasanaethau cyhoeddus, gwasanaethau busnes, llety a gwasanaeth bwyd, yn ogystal â'r diwydiant adeiladu. Fodd bynnag, mae'r darlun yn fwy negyddol ar gyfer gweithgynhyrchu, amaethyddiaeth, manwerthu a chyfanwerthu.


Er mai'r rhagolwg gan Experian yw'r hyn a ffefir, mae'r Adroddiad Tai a Thwf Economaidd yn ystyried buddsoddiad ac uchelgais, gan roi cyfrif am yr amgylchedd strategol ar gyfer twf yn Sir Gaerfyrddin. Ni fydd ffactorau fel Cynllun Adfywio Strategol y Cyngor *Trawsnewidiadau*, Datganiad Gweledigaeth y Cabinet (2022), nac ychwaith Bargaen Ddinesig Bae Abertawe a Chynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru wedi cael eu hystyried o fewn y tri rhagolwg 'o'r brig i lawr' y cyfeirir atynt uchod, felly maent yn bwysig i'w hystyried wrth ddatblygu senario twf amgen a arweinir gan fuddsoddiad. Mae'r Adroddiad yn amcangyfrif y gallai tua 674 o swyddi'r flwyddyn gael eu creu mewn senario twf o'r fath a arweinir gan fuddsoddiad.

Mae'n bwysig nodi yma hefyd fod gan yr awdurdod lleol amrywiaeth o gymhellion i fusnesau, gan gynnwys Grantiau Datblygu Eiddo i bontio'r bwll rhwng cost adeiladu a gwerth terfynol, Cronfa Mentrau Gwledig yn seiliedig ar greu swyddi, Grantiau Cychwyn a Thwf Busnes, Grantiau a Benthyciadau Canol Tref amrywiol, a Chronfeydd Ynni Adnewyddadwy. Bydd cymhellion yn y dyfodol yn dibynnu ar bolisiau a chyllid sy'n dod i'r amlwg o du Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

**4. Beth yw'r berthynas gyflogaeth drawsffiniol? Pa gyfran o'r swyddi presennol yn Sir Gaerfyrddin lle mae gweithwyr o'r tu allan i'r Sir wedi'u penodi ar eu cyfer?**

Mae Cymudo wedi cael ei ystyried yn yr Adroddiad Tai a Thwf Economaidd. Mae'n anochel y bydd cyfran o bobl yn cymudo allan o Sir Gaerfyrddin, ac y bydd cyfran o'r swyddi o fewn y Sir yn cael eu llenwi gan weithwyr o'r tu allan iddi. O ran niferoedd, gellir defnyddio'r gwahaniaeth rhwng y lefel cyflogaeth mewn ardal a maint y gweithlu sy'n preswyl yn yr ardal honno (hy, preswylwyr sydd mewn swydd) i gyfrifo 'cymhareb cymudo'.

Asesodd yr Adroddiad Tai a Thwf Economaidd batrymau cymudo o Gyfrifiad 2011 (y data mwyaf perthnasol ar adeg cyhoeddi), a nifer y gweithwyr preswyl yn Sir Gaerfyrddin oedd oddeutu 81,402, a nifer y bobl a oedd yn cael eu cyflogi yn yr ardal oedd 74,569. Canlyniad hyn yw cymhareb cymudo o 1.09, sy'n dynodi allgymudo net. Dangosir y niferoedd mewnllif/all-lif gwirioneddol yn ffigur Nomis isod. O ganlyniad i hynny, o'r 74,569 o fewn y Sir, mae 10,889 wedi'u llenwi gan weithwyr o'r tu allan i'r Sir.



Commuting totals (all categories: method of travel to work (2001 specification)) for Carmarthenshire:

- Inflow: **10,889** person(s) commute into Carmarthenshire from other local authorities in the UK.
- Outflow: **17,722** person(s) commute out of Carmarthenshire to other local authorities in the UK or abroad.
- Net change: Overall, commuting results in a population decrease of **6,833** in Carmarthenshire.

**5. Faint o drigolion Sir Gaerfyrddin sy'n teithio i'r gwaith y tu allan i'r Sir? Sut y mae'r symudiad hwn wedi cael ei ystyried yn ei ragolygon cyflogaeth?**

Drwy gyfeirio at ffigur nomis yn yr ateb i gwestiwn 4 uchod, gallwn weld bod 17,722 o drigolion Sir Gaerfyrddin wedi cymudo allan o'r Sir i weithio yn 2001, ac nid yw'n syndod bod cyfran fwyaf y rheiny'n manteisio ar y cynnig economaidd yn Ninas a Sir Abertawe.

Cynhaliwyd yr asesiad yn yr Adroddiad yng nghyd-destun Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru 3, sy'n pwysleisio pwysigrwydd taro cydbwysedd rhwng twf tai a swyddi, i leihau'r angen i gymudo.

Mae'r Adroddiad Tai a Thwf Economaidd yn tybio bod cymudo yn parhau ar yr un gyfradd ag a gofnodwyd yn y Cyfrifiad a adroddwyd ddiwethaf yn 2011, pan oedd 1.09 o weithwyr preswyl fesul swydd yn Sir Gaerfyrddin, gan greu all-gymudo net. Er bod y darlun hwn wedi dyddio, ac yn dal i heneiddio, mae'n werth nodi bod y gymhareb a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2001 yn union yr un peth (gweler ffigur Nomis uchod). Mae hyn yn awgrymu bod hon yn duedd hirsefydlog y gellir tybio'n rhesymol y bydd yn parhau fel man cychwyn, hyd yn oes nad yw'n rhoi unrhyw gyfrif am unrhyw ymyriadau penodol a arweinir gan bolisi i addasu'r berthynas rhwng swyddi a llafur yn y Sir. Mae'r gymhareb gymudo hon wedi'i chymhwyso yn yr Adroddiad a'i phennu'n sefydlog drwy gydol y cyfnod a ragwelir yn yr holl senarios.

Er mwyn gwrthsefyll yr all-lif net traddodiadol o gymudwyr o Sir Gaerfyrddin, mae ymateb cadarnhaol o ran tir drwy ddarparu digon o dir ar gyfer datblygiadau cyflogaeth yn y dyfodol - digon i fodloni'r anghenion ar gyfer creu oddeutu 354 o swyddi y flwyddyn fel y rhagwelwyd yn y senario a ffefrir yn yr Adroddiad Tai a Thwf Economaidd. Er bod yr amcanestyniad sylfaenol hwn yn hyrwyddo mathau cynaliadwy o dwf a fydd o gymorth i leihau'r angen i all-gymudo hyd yr eithaf, mae'r Adroddiad yn archwilio'r potensial am lefel uwch o dwf swyddi, lle gallai cynifer â 674 o swyddi y flwyddyn gael eu creu o wneud amrywiaeth o fuddsoddiadau hysbys a phosib.

**6. A yw'r safleoedd a ddyrennir o dan Bolisi SP6 yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy? A ddylent fod yn destun polisiau penodol sy'n darparu fframwaith clir ar gyfer datblygu?**

Mae PCC12 yn pwysleisio y dylid rhoi ystyriaeth ofalus i safleoedd cyflogaeth strategol er mwyn sicrhau eu bod yr hyn y maent yn ei gynnig yn amrywio ar draws y rhanbarth [a hefyd ar raddfa'r Sir]. Mae'r ddau safle a ddyrannwyd o dan Bolisi SP6, sef Pentre Awel a'r Egin, yn safleoedd strategol pwysig, ar raddfa leol a hefyd ar raddfa ranbarthol. Yn wir, dylid ystyried datblygiad economaidd y Sir yn y

dyfodol, yn enwedig o ran y ddau safle hyn, yng nghyd-destun ehangach Bargen Ddinesig Bae Abertawe y mae'r ddau brosiect hyn yn elfennau pwysig ohoni.

O ran Pentre Awel, rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol yn 2019 ar gyfer Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd Llanelli, gan gynnwys hwb iechyd cymunedol (sefydliad Gwyddor Bywyd, canolfan addysg llesiant a chanolfan darpariaeth glinigol); rhoddwyd caniatâd D1 Sefydliad amhreswyl, B1 Ymchwil a Datblygu Busnes, a Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer mynediad, ymddangosiad, cynllun tirweddol a graddfa Cam 1 y cynllun ym mis Mehefin 2022. Mae nifer o amodau wedi cael eu cyflawni ers hynny a gwaith i ddatblygu cam 1 o'r safle ar y gweill.

Mae Pentre Awel wedi'i ddyrannu yn y CDLI Diwygiedig fel safle strategol o dan Bolisi SP6, ac oherwydd bod cryn gynnydd wedi'i wneud ar y safle yn nhermau caniatâd cynllunio (a phrif gynlluniau cysylltiedig), ni thbyir ei bod yn angenrheidiol pennu polisi penodol i drafod y safle o fewn y Cynllun.

O ran Yr Egin, ceir caniatâd cynllunio ar y safle, ac mae'r safle eisoes wedi cael ei ddatblygu a'i feddiannu. Fodd bynnag, yn wahanol i Bentre Awel, mae'r Egin wedi'i gynnwys o dan bolisi cyflogaeth EME3 fel safle cyflogaeth wedi'i ddyrannu oherwydd natur ei ddosbarth defnydd B2. Ni thbyir felly fod angen darparu polisi penodol o fewn y Cynllun ar gyfer y safle hwn.

## **7. A yw lefel y ddarpariaeth tir cyflogaeth a nodwyd ym Mholisi SP7 yn briodol?**

### **a) Sut mae'r ffigur cyffredinol o 71.21 hectar wedi'i lunio? A yw lefel y ddarpariaeth tir cyflogaeth yn cael ei chyfiawnhau a'i chefnogi'n llawn gan dystiolaeth gadarn a chredadwy?**

Mae Polisi Strategol SP7: Cyflogaeth a'r Economi yn gosod y fframwaith i alluogi darparu lefel gytbwys o dir cyflogaeth er mwyn darparu ar gyfer y swyddi newydd a'r angen a nodwyd drwy *Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir ar gyfer Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin a'r Adroddiad Tai a Thwf Economaidd*. Roedd y rhain yn ystyried dull anghyfyngedig a chadarnhaol o sicrhau bod ystod a chymysgedd o fathau o safleoedd ar gael ar draws y Sir hyd at 2033, gan roi digonedd o gwmpas i barhau i fuddsoddi heb amharu ar y cyflenwad tai.

Sefydlodd Astudiaeth y Ddwy Sir ddadansoddiad meintiol o'r galw a ragwelir am safleoedd cyflogaeth ar raddfa ehangach na lleol. I ategu'r Astudiaeth cafwyd tystiolaeth o'r farchnad a chan gyflogwyr yn gysylltiedig â'r galw o fewn y farchnad. Ymhellach i hyn, sefydlodd yr Astudiaeth Tai a Thwf Economaidd y cysylltiadau rhwng mantoli'r lefelau tir cyflogaeth a swyddi â'r gofyniad am dwf cartrefi newydd yn y Sir.

Mae angen cadw nifer o ffactorau mewn cof wrth ystyried y ffigur 71.21ha a ddyrannwyd. Yn ôl TAN 23, 'efallai y bydd y targedau darparu tir yn uwch na'r galw

disgwylidig, i ganiatáu ar gyfer y siawns bod yr asesiadau'n rhy isel ac i sicrhau nad oes unrhyw gyfleoedd yn cael eu colli.' Mae Canllawiau Ymarfer y TAN (Awst 2015) yn ystyried, lle gellir cyfiawnhau hynny, y gall targedau darparu fod yn uwch na'r galw disgwylidig, i ganiatáu ar gyfer y siawns bod yr asesiadau'n rhy isel ac i sicrhau nad oes unrhyw gyfleoedd yn cael eu colli.

Wrth gydnabod pwysigrwydd peidio â dibynnu'n llwyr ar ragolygon cyflogaeth wrth nodi portffolio o dir cyflogaeth, mae *Astudiaeth y Ddwy Sir* yn pwysleisio'r galw o blith busnesau cynhenid, a'u hyder i aros a thyfu, a dyhead gan randdeiliaid i warchod manteision eu lleoliad a'u hasedau strategol ar gyfer twf yn y dyfodol. Ynghyd â'r canfyddiadau hyn, ystyrir bod canlyniadau economaidd y cynnydd a ragwelir yn niferoedd y swyddi a nodir yn yr Astudiaeth Tai a Thwf Economaidd yn ddigonol ar gyfer y CDLI Diwygiedig, ac y byddant yn sicrhau na chyfyngir ar yr economi leol. Mae'n werth pwysleisio eto yma yr ystod o gymhellion a gynigir gan yr awdurdod lleol i fusnesau er mwyn sbarduno buddsoddiad yn y sector preifat - gweler C.3 uchod.

Ar ben hyn, mae llawer o'r safleoedd arfaethedig o natur strategol, wedi'u cefnogi'n gorfforaethol ac yn cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer twf economaidd disgwylidig y Sir. Mae rhai o'r safleoedd eisoes yn elwa ar ganiatâd cynllunio a/neu prif gynlluniau.

**b) A yw Polisi EME 3 yn gwahaniaethu'n glir rhwng safleoedd dyranedig ac ymrwymedig? A yw'r safleoedd yn realistig ac yn economaidd hyfyw? A ydynt yn rhydd o gyfyngiadau sylweddol ac a oes modd eu cyflawni dros gyfnod y Cynllun?**

Nac ydy. Ni cheir gwahaniaethu rhwng safleoedd dyranedig ac ymrwymedig yn y dyraniadau cyflogaeth unigol a restrir ym Mholisi EME3. Fodd bynnag, mae Tabl 6 yn nodi lefel y dyraniadau sydd wedi'u hymrwymo ym mhob Haen. Wrth Adneuo, roedd 17.29ha o'r safleoedd a ddyrannwyd wedi'u hymrwymo, a'r 53.92ha a oedd yn weddill heb eu hymrwymo. Mae gwahaniaethu rhwng safleoedd dyranedig ac ymrwymedig yn clymu'r cynllun i gyfnod penodol. O fewn cyfnod byr, gall caniatâd cynllunio ar rai safleoedd ddod i ben, a gall safleoedd eraill ennill caniatâd. Caiff ymrwymadau o'r fath eu monitro'n flynyddol a'u cyhoeddi yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB).

Mae profforma safle manwl wedi cael ei lunio ar gyfer pob dyraniad, ac mae gan rai o'r safleoedd mwy Ddatganiadau Tystiolaeth hefyd. Mae'r dogfennau hyn yn nodi hyfywedd economaidd a chyflawnadwyedd y safleoedd ynghyd â gwybodaeth am gyfyngiadau posibl a sut y gellid eu goresgyn.

**c) A yw hierarchaeth safleoedd cyflogaeth yn briodol ac yn gyson â gofynion y polisi cynllunio cenedlaethol?**

Mae PCC12 yn pwysleisio y dylai awdurdodau cynllunio gefnogi darpariaeth ddigonol o dir i fodloni anghenion y farchnad gyflogaeth ar lefel strategol a lleol, ac y dylai cynlluniau datblygu nodi gofynion tir cyflogaeth, a dyrannu cymysgedd briodol o safleoedd i fodloni'r angen.

Mae pwysigrwydd y ddau safle strategol a nodwyd o dan Bolisi SP6 eisoes wedi'u cynnwys yn yr ateb i gwestiwn 6 uchod. Er bod y ffocws strategol yn gysylltiedig â Bargen Ddinesig Bae Abertawe, mae'r CDLI Diwygiedig hefyd yn darparu ystod o safleoedd a chyfleoedd ar gyfer mewnfuddsoddi ac adleoli posibl. Mae hyn yn cynnwys safleoedd posibl ar gyfer cyflogwyr mwy, yn ogystal â safleoedd i ddarparu ar gyfer defnyddiau busnes graddfa lai a dechrau busnes newydd o fewn y fframwaith polisi. Yn ogystal â'r ddau safle strategol, mae Polisi SP7 yn nodi bod 71.21ha o dir cyflogaeth wedi'i ddarparu - ac mae'r safleoedd unigol wedi'u nodi o dan Bolisi EME3. Nodiad: mae'r 71.21ha yn cynnwys safle strategol Yr Egin, ond nid safle strategol Pentre Awel (gan fod yr olaf yn safle defnydd cymysg ac ond yn cynnwys rhai defnyddiau dosbarth B) – gweler hefyd yr ateb i d) isod.

O ran hierarchaeth, mae safleoedd mwy fel arfer wedi'u dyrannu o fewn y tair Prif Ganolfan, sef Llanelli, Rhydaman/Cross Hands a Chaerfyrddin, yn unol â Strategaeth Ofodol y Cynllun. Fodd bynnag, mae mwy o safleoedd bach i ganolig wedi'u dyrannu yn yr Haenau anheddiad eraill, er mwyn galluogi cyfleoedd am ddefnyddiau cyflogaeth mewn lleoliadau priodol ar draws y Sir. Ar ben hynny, wrth sefydlu hierarchaeth dyraniadau, rhoddwyd sylw hefyd i ystod o ystyriaethau er mwyn sicrhau bod lefel y tir a ddarperir nid yn unig yn adlewyrchu ystod o safleoedd cyflawnadwy, ond hefyd yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o'u cymeriad, ac o'r ardaloedd o'u hamgylch. Mae hyn oll yn unol â PCC12 sy'n cynghori y dylai awdurdodau cynllunio anelu i gydgyssylltu datblygiad â phob math o ddarpariaeth seilwaith, fel trafndiaeth a chyfleustodau, ac y dylai alinio swyddi a gwasanaethau â thai a seilwaith trafndiaeth gynaliadwy, i leihau'r angen i deithio, a'r ddibyniaeth ar gar er mwyn mynd o'r naill le i'r llall.

**ch) Beth yw strategaeth y Cynllun ar gyfer dosbarthiad y tir cyflogaeth? A yw'n ystyried gofynion Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol a mentrau adfywio eraill?**

Mae Cymru'r Dyfodol yn cefnogi lleoliadau cynaliadwy ar gyfer defnyddiau tir economaidd. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd perthnasoedd trawsffiniol rhwng awdurdodau lleol ac yn sefydlu'r cysyniad o ardaloedd twf cenedlaethol a rhanbarthol. Dyma fydd y prif ffocws ar gyfer twf a buddsoddi ym mhob un o'r rhanbarthau yng Nghymru. Mae Sir Gaerfyrddin yn rhan o ranbarth y De-orllewin, lle bydd Bae Abertawe a Llanelli (Ardal Dwf Genedlaethol) yn brif ffocws ar gyfer twf a



buddsoddiad, a lle bydd Caerfyrddin a phedair tref borthladd Sir Benfro (Ardal Dwf Ranbarthol) yn ffocws ar gyfer twf a reolir, gan adlewyrchu eu swyddogaethau isrannerbarthol a'u cysylltiadau cryf ag Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli.

Yn unol â hynny, mae Strategaeth Ofodol y CDLI Diwygiedig yn cydnabod yr ardaloedd twf cenedlaethol a rhanbarthol fel ffocws ar gyfer twf economaidd strategol a thai, ac yn nodi hierarchaeth anheddau, gyda ffocws ar egwyddorion cynaliadwy wrth ddsbarthu twf. Mae'r ardaloedd twf strategol yn adlewyrchu'r ffurf drefol gyfredol, ar ffurf Llanelli, Rhydaman/Cross Hands a Chaerfyrddin gyda'u rhinweddau cynaliadwyedd perthynol a'r sbardunau economaidd cryf o ran y galw o fewn y farchnad ac o ran cyflawni. Mae'r tair ardal dwf hyn wedi'u dynodi'n brif ganolfannau ac er y byddant yn derbyn y gyfran fawr o'r twf a ragwelir, mae cyfleoedd llai (safleoedd) hefyd wedi'u dynodi mewn ardaloedd eraill yn y Sir.

Mae'r pwyslais ar y Prif Ganolfannau nid yn unig yn adlewyrchu eu rhinweddau cynaliadwyedd ond hefyd eu hetifeddiaeth hanesyddol. Mae dosbarthiad tir cyflogaeth hefyd wedi'i alinio'n dda â'r lleoliadau cynaliadwy yn y Sir sy'n hygyrch ar drafnidiaeth gyhoeddus neu ar lwybrau teithio llesol sy'n lleihau'r angen i deithio.

**d) A fwriedir i'r holl safleoedd a ddyrennir ym Mholisiau SP7 ac EME3 gael eu datblygu at ddibenion B1, B2 a B8 yn unig? Os ddim, a ddylid diwygio'r polisiau i wneud yn glir y defnydd(iau) arfaethedig/posibl eraill?**

O ran Polisi EME3, y defnydd a fwriedir o'r safleoedd a neilltuwyd yw dibenion cyflogaeth B1, B2 a B8. Mae'r Cyngor o'r farn fod hyn wedi'i ddatgan yn glir yn nhestun ategol y Polisi (para. 11.160) ac nad oes angen ei ddiwygio. Fodd bynnag, dylid pwysleisio bod y testun ategol ym mharagraffau 11.161 a 11.162 hefyd yn cynnwys math o gafeat lle bydd defnyddiau cyflogaeth eraill a defnyddiau ategol cysylltiedig y tu allan i ddsbarth B yn cael eu caniatáu ar safleoedd cyflogaeth dyranedig lle bo'r datblygiad arfaethedig yn ategu ac yn gwella swyddogaeth y safle. Yn y blynyddoedd diwethaf gwelwyd ambell ddefnydd y tu allan i ddsbarth B ar safleoedd a oedd fel arall yn safleoedd cyflogaeth traddodiadol, ac mae hynny'n arwydd o newid mewn amgylchiadau economaidd-gymdeithasol. Bydd darpariaeth o'r fath ym Mholisi EME3 yn caniatáu rhywfaint o amrywiaeth a hyblygrwydd i'r economi leol. Ymhlith yr enghreifftiau yn y blynyddoedd diwethaf cafwyd practis deintyddol, cwmni cyfrifeg, canolfan iechyd a llesiant menywod ar safle adfywio a defnydd cymysg Pibwrlwyd. Bu ymholiadau hefyd am ddefnyddiau nad ydynt yn rhai ddsbarth B yn Nwyrain Cross Hands, ac er bod y Gyd-fenter (JV) wedi datgan y bydd y safle'n cael ei feddiannu'n bennaf gan ddefnyddiau B1, mae'n bosib y bydd hi'n bosibl cynnwys datblygiadau atodol.

O ran Polisi SP7, mae'r 71.21 hectar a nodir yma yn cyfeirio at y dyraniadau cyflogaeth, sydd ar gyfer defnyddiau B fel y nodir uchod. Fodd bynnag, crybwyllir safle strategol Pentre Awel hefyd yn y polisi hwn ac [fel y nodwyd yn yr ateb i gwestiwn 6 uchod] nid oes ond cyfran fechan o ddefnyddiau B yn gysylltiedig â'r safle hwn. Gellir geirio hyn yn gliriach yn y polisi fel diwygiad.

**dd) A ddylid cynnwys manylion y dyraniadau cyflogaeth anstrategol yn y Cynllun?**

Mae'r dyraniadau cyflogaeth anstrategol wedi bod yn destun proses asesu drylwyr, ac mae gan bob un ohonynt brofformas safle manwl unigol sy'n rhan o'r sylfaen dystiolaeth. Nid oedd manylion o'r fath wedi'u cynnwys yn y Polisiâu cyflogaeth eu hunain gan y byddai hynny wedi'u gwneud yn rhy eiriog a thrwsgl. Fodd bynnag, gellir cynnwys manylion y dyraniadau cyflogaeth anstrategol mewn atodiad newydd ar wahân os bernir bod angen.

**8. A yw Polisi EME1 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer diogelu safleoedd cyflogaeth?**

Mae Polisi EME1 yn cyfeirio at safleoedd a nodir i ddibenion cyflogaeth ym Mholisi SP7 ar gyfer defnyddiau cyflogaeth B, gan gynnwys:

- y 71.21ha o ddyraniadau newydd (a restrir yn unigol ym Mholisi EME3)
- y safleoedd cyflogaeth presennol a nodir ar y Map Cynigion
- safle strategol Pentre Awel – **DS** wrth ddiwygio geiriad polisi SP7, y cyfeiriwyd ato yn yr ateb i C.7 (e) uchod, cadarnheir na fydd holl ddefnyddiau datblygiad Pentre Awel yn ddefnyddiau B.

Ystyrir bod y polisi yn darparu fframwaith priodol ar gyfer diogelu'r safleoedd cyflogaeth ac y bydd angen i unrhyw gynigion a fyddai'n arwain at eu colli ddangos y gellir bodloni'r 6 maen prawf eithriadau a nodir yn y polisi.

Er eglurder, mae'r Cyngor o'r farn y gallai fod yn briodol hepgor y gair 'presennol' o frawddeg 1af para. 11.153. Mae'r polisi'n berthnasol i ddyraniadau newydd yn ogystal â safleoedd presennol.

**9. Beth yw pwrpas Polisi EME2? A yw'n berthnasol i ddatblygiadau mewn ardaloedd gwledig a threfol?**

Bydd mentrau cyflogaeth presennol (mae'r rhain fel arfer wedi'u nodi ar Fap Cynigion y CDLI fel safleoedd cyflogaeth presennol) yn parhau i ddarparu ffynhonnell werthfawr o gyflogaeth ar draws y sir, ac mae polisi EME2 yn cydnabod y ffaith hwn drwy fod yn rhagweithiol o ran galluogi busnesau presennol i ehangu.

Mae'r Adolygiadau Tir Cyflogaeth, a gynhelir yn flynyddol fel arfer, wedi amlygu'r ffaith bod trosiant cyson o fusnesau newydd ar safleoedd cyflogaeth presennol (er bod hynny ar raddfa fach); weithiau gall hyn fod oherwydd bod perchennog busnes yn newid mewn eiddo, neu weithiau gall hyn fod oherwydd estyniad ar adeilad presennol er mwyn gallu ehangu busnes, neu greu maes parcio ategol newydd i ddarparu ar gyfer gweithwyr ychwanegol, er enghraifft. Pwrpas y polisi hwn yw

darparu ar gyfer amgylchiadau o'r fath ac atal tir cyflogaeth rhag cael ei anffrwythloni, ac atal y posibilrwydd o leihau cyfleoedd cyflogaeth.

Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw'n glir a yw'r polisi'n berthnasol i ddatblygiad mewn ardaloedd gwledig yn ogystal ag ardaloedd trefol. Rydym yn cytuno i aralleirio'r polisi i bwysleisio ei fod yn berthnasol i'r naill a'r llall.

**10. A yw'r dull a ddefnyddir ym Mholisi EME4 o ran datblygu cyflogaeth ar safleoedd na ddyrennir o fewn terfynau datblygu a'r tu allan iddynt, wedi'i fynegi'n glir, yn ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau sy'n newid, ac yn gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol?**

Er mai prif nod y polisiâu cyflogaeth yw cyfeirio cyflogaeth newydd i'r 71.21ha o ddyraniadau cyflogaeth a nodir ym Mholisi EME3, cydnabyddir y gall y farchnad economaidd gyfarwyddo hyn ar adegau, ac y gall cynigion weithiau gael eu cyflwyno ar safleoedd nad ydynt wedi'u dyrannu neu ar safleoedd cyflogaeth sy'n bodoli eisoes. Mae'r Adolygiadau Tir Cyflogaeth blynyddol wedi nodi bob blwyddyn fod cynigion o'r fath wedi cael eu cyflwyno ar yr 'hap-safleoedd' hyn. Gall amgylchiadau newid ac mae Polisi EME3 yn hwyluso datblygiad yn y dyfodol ar y darnau hynny o dir a allai fod yn addas iawn, ond lle nad oes unrhyw obaith o'u cynnwys am resymau amrywiol fel uchelgeisiau tiffeddianwyr, cyfyngiadau ar seilwaith, a pherchnogaeth ar dir.

Mae Polisi EME4 felly'n darparu elfen o hyblygrwydd lle gellid darparu ar gyfer cyfleoedd economaidd ar safleoedd heb eu dyrannu mewn ardaloedd trefol a gwledig. Ystyrir bod meini prawf y polisi yn ddigon cadarn a hyblyg i alluogi cyfleoedd am ddatblygiad priodol, a hefyd i amddiffyn defnyddiau cyfagos rhag effeithiau andwyol a allai ddeillio o'r gwaith arfaethedig.

Er y disgwylir i'r rhan fwyaf o'r cynigion a ragwelir ar gyfer datblygiadau o'r fath gael eu cyflwyno yn yr ardaloedd twf cynaliadwy mwy, yn unol â PCC12, mae'r polisi hefyd yn cydnabod pwysigrwydd mentrau graddfa fach yng nghefnwlad fwy gwledig y Sir a'r rôl hanfodol y gall y rhain eu chwarae yn yr economi wledig. Yn wir, cynhaliodd y Cyngor yr Astudiaeth 10 Tref, a oedd wedyn yn cyfrannu at adroddiad *Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen*, a oedd yn edrych ar bwysigrwydd y trefi canolfan wasanaeth lleol ledled Sir Gaerfyrddin. Mae galluogi twf ar raddfa fach yn y gefnwlad wledig yn gydnaws â *Chymru'r Dyfodol* ac ystyried y cysylltiadau agos rhwng yr ardaloedd anghysbell hyn ac ardal dwf ranbarthol Caerfyrddin.

# *Yr Economi Ymwelwyr a Datblygiad sy'n Gysylltiedig â Marchogaeth*

## **11. Sut y bydd y Cynllun yn cynnal ac yn gwella cynnig twristiaeth, diwylliant a hamdden y Sir?**

Mae twristiaeth yn rhan allweddol o economi Sir Gaerfyrddin. Mae'n ffynhonnell bwysig o gyflogaeth a refeniw. Mae'n cynhyrchu tua £400 miliwn - £500 miliwn o refeniw i economi'r Sir yn flynyddol.

Mae'r Sir yn gartref i amrywiaeth eang o atyniadau, gan gynnwys Cae Rasio Ffos Las, yr Ardd Fotaneg Genedlaethol a Pharc Gwledig Pen-bre. Sir Gaerfyrddin yw "canolbwynt beicio Cymru", ac mae'r Strategaeth Feicio yn crisialu dyheadau'r Cyngor i arwain y wlad o ran darparu digwyddiadau a datblygu seilwaith beicio.

Mae SP11 yn sefydlu'r fframwaith ar gyfer ymagwedd polisi o fewn y CDLI Diwygiedig sydd yn ddigon ymatebol a hyblyg i ymateb i alw'r farchnad. Wrth ddehongli SP11, dylid nodi bod datblygiadau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn cynnwys cyfleusterau newydd, yn ogystal ag estyniadau ar gyfleusterau sy'n bodoli eisoes. Er bod polisi strategol SP11 yn darparu'r cyd-destun troswaol, mae polisiau penodol yn rhoi'r manylion – gweler yr atebion i gwestiynau 12 ac 13 isod.

## **12. A fydd Polisi VE1 yn darparu mecanwaith priodol ar gyfer rheoli atyniadau a chyfleusterau newydd i ymwelwyr yn y Sir? A yw gofynion y polisi'n cael eu mynegi'n glir?**

Ydy. Mae'r polisi hwn yn cydnabod y cyfleoedd economaidd a gynigir gan y sector twristiaeth ond hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal hygredd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Sir. O ganlyniad i hynny, wrth ddarparu ar gyfer anghenion atyniadau a chyfleusterau i ymwelwyr (rhai newydd yn ogystal ag estyniadau ar safleoedd sy'n bodoli eisoes), mae'r polisi hefyd yn diogelu ffabrig cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Sir rhag unrhyw niwed a allai ddeillio o'r cynnig.

Mae gofynion y polisi wedi'u nodi'n glir drwy feini prawf, gan wahaniaethu'n glir rhwng rhai sy'n cyflwyno cynigion oddi mewn i aneddiadau, neu'n uniongyrchol gysylltiedig ag aneddiadau a rhai sy'n cyflwyno cynigion mewn ardaloedd mwy gwledig (cefn gwlad agored); mae'n ofynnol defnyddio dull dilyniannol ar gyfer yr olaf o'r ddau. Mae'r polisi'n pwysleisio pa mor bwysig yw hi i gynigion fod yn briodol i'w lleoliad, ac y dylent, yn ddelfrydol, fod yn hygyrch drwy wahanol ddulliau teithio.

**13. A yw Polisiâu VE2, VE3 a VE4 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer rheoli llety ymwelwyr yn y Sir?**

Ydynt. Mae Polisiâu VE2, VE3 a VE4 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer rheoli llety ymwelwyr yn y Sir, yn unol â pholisi cenedlaethol. Mae'r polisiâu'n cydnabod pwysigrwydd yr economi ymwelwyr yn y Sir, a manteision cael arlwy amrywiol o ran llety, yn nhermau cynnig ystod a dewis o lefydd i aros, yn amrywio rhwng gwestai a thai llety, a llety gwersylla parhaol a thros dro.

Mae pob polisi yn ymdrin â math penodol o lety ymwelwyr ac wedi'i ategu gan nifer o feini prawf penodol y bydd angen i gynnig unigol eu bodloni. Mae Polisi VE2 yn ymwneud â'r amrywiaeth o wahanol fathau o lety parhaol ar ffurf gwestai mawr o ansawdd uchel, hyd at lety gwely a brecwast bach. Er budd cynaliadwyedd, mae'r polisi'n cydnabod yr angen i leoli cynigion am adeiladau newydd o fewn aneddiadau diffiniedig neu'n uniongyrchol gysylltiedig â nhw. Lle nad yw hyn yn bosibl, ni chefnogir cynigion ond os ydynt yn ymwneud ag ailddefnyddio ac addasu adeilad presennol.

Mae polisiâu VE3 a VE4 yn ymateb i dueddiadau sy'n dod i'r amlwg o fewn y sector, ac yn caniatáu ystyried unedau gwersylla moethus neu lety glampio amgen, a charafanau sefydlog a chabanau gwyliau. Y prif wahaniaeth rhwng y naill bolisi a'r llall yw pa mor barhaol yw'r llety. Mae pob polisi yn cynnwys nifer o feini prawf y bydd angen eu bodloni; mae'r cynigion parhaol o dan VE4, sy'n cynnwys carafanau sefydlog a chabanau gwyliau, yn fwy rhwystrol o ran cyfyngiadau ar leoli a gweithredu.

Gyda'i gilydd, ystyrir bod pob un o'r 3 pholisi yn darparu ar gyfer anghenion pob math o lety ymwelwyr yn y Sir, yn ogystal â sicrhau gwarchodaeth ddigonol i'r rhwydwaith priffyrdd lleol a rhinweddau'r dirwedd.

**14. A ddylid dynodi'r Gateway Resort a Chlwb Golff y Garnant yn gyfleusterau twristiaeth?**

Na ddylid. Nid yw'r Cynllun yn nodi cyfleusterau twristiaeth ar ei Fapiau Cynigion, onid ydynt yn rhan o safle adfywio a defnydd cymysg a nodwyd. Mae'r fframwaith polisi a nodir yn y CDLI diwygiedig (gweler yr atebion i gwestiynau 11-13 uchod) yn caniatáu datblygiad posibl ar gyfer twristiaeth a'r economi ymwelwyr os yw wedi'i leoli'n briodol. Mae hyn yn cynnwys ehangu cyfleusterau presennol (fel Gateway Resort, y Bynea a Chlwb Golff y Garnant) yn ogystal â chynigion am gyfleusterau newydd.

**15. A yw Polisi RD5 yn darparu fframwaith priodol o ran asesu cynigion ar gyfer cyfleusterau marchogaeth newydd?**

Ydy. Mae Polisi RD5 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer asesu cynigion am gyfleusterau marchogaeth newydd, ac yn seiliedig ar amryw o feini prawf y bydd angen eu bodloni, yn gysylltiedig â lleoli, dwysedd y defnydd, mynediad addas, a

sicrhau na chaiff y datblygiad effaith andwyol ar y tirlun nac ar fuddiannau cadwraeth natur. Mae'r polisi'n berthnasol i gyfleusterau marchogaeth sy'n gysylltiedig â defnydd domestig preifat yn ogystal â rhai ar gyfer defnydd masnachol, ac yn gwahaniaethu rhwng y naill a'r llall. Mae paragraff 11.402 yn nhestun ategol y Polisi yn amlygu y bydd stablau masnachol a menage yn cael eu hystyried fel busnesau gwledig.

## *Seilwaith*

### **16. A yw gofynion Polisi INF3 ar gyfer darparu Band Eang yn briodol ac yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol?**

Ydynt, mae Rhifyn 12 Polisi Cynllunio Cymru yn gorchymyn bod yn rhaid i gynigion datblygu newydd gynnwys seilwaith band eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigadid o'r cychwyn cyntaf. Mae'r CDLI Diwygiedig yn gwneud hyn yn ofynnol ar gyfer pob datblygiad newydd. Yn ogystal â hynny, mae'n mynnu bod yn rhaid i ddatblygiadau mawr newydd gynnwys cysylltiadau cyflym a dibynadwy i'r eiddo, tra dylai datblygiadau llai gynnig mynediad at y cyswllt cyflym gorau sydd ar gael, a chynnwys dwythellau ychwanegol ar gyfer gwaith cysylltiad ffeibr i'r adeilad, neu waith uwchraddio tebyg, yn y dyfodol. Ac ystyried y ddibyniaeth gynyddol ar fand eang ar gyfer bywyd bob dydd, mae cysylltu ardaloedd gwledig wedi dod yn fwyfwy pwysig. Mae natur anghysbell rhai rhanbarthau yn creu heriau i gwmnïau telathrebu wrth osod rhwydweithiau modern. Mae'r CDLI Diwygiedig yn sicrhau y bydd gan ddatblygiadau newydd yn yr ardaloedd hyn fynediad at y cysylltiad cyflym gorau bosib ac y bydd ganddynt seilwaith i hwyluso gwaith uwchraddio ffibr yn y dyfodol lle bo'n ymarferol. O ganlyniad i hynny, mae'r Cynllun yn mynd i'r afael â'r angen am seilwaith band eang a gwaith i'w wella neu ei amnewid.